7FED O DACHWEDD

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

### Noson Rhieni

Mae wedi bod yn wythnos hyfryd yma yn yr ysgol, wrth i ni groesawu chi fel rhieni i'n nosweithiau agored.

Mae'r cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol yn hollbwysig er mwyn cefnogi ein disgyblion i lwyddo.Cofiwch, os oes gennych unrhyw bryderon neu os hoffech drafod unrhyw beth ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol unrhyw bryd.

### Ymweliad Estyn

Bydd Estyn yn arolygu Ysgol Treganna o ddydd Llun, Tachwedd 17eg, tan ddydd Mercher, Tachwedd 19eg.

Mae eich barn chi fel rhieni yn hynod bwysig, felly gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r holiadur sydd wedi ei ddanfon atoch.Bydd cyfarfod i rieni hefyd ar nos Lun, Tachwedd 17eg, yn neuadd yr ysgol am 3.45yp, ac mae croeso mawr i bawb i ddod.

### Bws Beic

Bydd Bws Beic nesaf yr ysgol ar ddydd Gwener, Tachwedd 21ain.Rydym yn hynod ddiolchgar i'r rhieni a'r staff sy'n cefnogi'r Bws Beic ac mae'n ffordd hyfryd o deithio i'r ysgol!

Mae croeso i bawb ymuno gyda'r Bws Beics. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r ysgol.

## Calendr

**Ymweliad Estyn**
**17.11.25**

**Ffair Nadolig**
**28.11.25**

# Y Nyth

Diolch i bawb wnaeth lenwi'r holiadur diweddar. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth yn fawr. Mae yna dal gyfle i chi ddweud eich dweud am beth rydym yn ei wneud yn dda a sut gallwn wella. Gallwch wneud hynny yma.

**Hwyl gyda Ffoneg (Gweithdy i rieni Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 yn unig)**
A hoffech chi wybod rhagor am y ffordd y caiff eich plentyn ei addysgu i ddarllen ac ysgrifennu yn yr ysgol?
**Pryd?** Dydd Mercher, 26ain o Dachwedd (3.45yp – 4.30yp)
Cliciwch yma i sicrhau lle; rhaid gwneud hyn ymlaen llaw. Os fydd y galw'n uchel, byddwn yn trefnu sesiwn ychwanegol.

**Fforwm Rhieni (Awtistiaeth / ADHD)**
*Grŵp ar gyfer rhieni, cyn rhieni, gofalwyr, neiniau, a theidiau plant sydd wedi cael diagnosis Awtistiaeth ac/neu ADHD, neu sydd yn y broses o dderbyn diagnosis (h.y. ar y llwybr asesu Niwroddatblygiadol).
**Paned a Chlonc** - cyfle i rieni ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned
**Pryd?** Dydd Gwener, 5ed o Ragfyr (9.30yb – 11.00yb)
Cliciwch yma i gofrestru

**Cymorth i Rieni Mabwysiedig**
Rydym yn awyddus i sefydlu grŵp ar gyfer rhieni mabwysiedig hefyd. Nod y fforwm fydd rhoi cyfle i rieni gyfarfod a rhannu profiadau, yn ogystal â dysgu am wasanaethau lleol a derbyn gwybodaeth a fydd, o bosib, yn berthnasol iddynt drwy siaradwyr gwadd.
Petai gennych ddiddordeb, a fyddech gystal â chofrestru yma.
Diolch!

**Arweinydd Lles a'r Gymuned**
*Hefyd, i'ch atgoffa ...*
Os ydych chi'n teimlo bod angen i chi siarad â rhywun, neu ofyn am gyngor, cofiwch fod yna groeso i chi alw heibio am sgwrs dros baned efo Mrs Rhiannydd Jones, ein Harweinydd Lles a'r Gymuned. Bydd unrhyw bryderon neu sylwadau'n cael eu delio â mewn modd sensitif, a bydd Mrs Jones yn gweithio gyda chi i ddatrys unrhyw bryderon neu faterion sydd gennych.
**Pryd?** Bob prynhawn dydd Gwener (1.00yp-3.30yp)
**Pwysig:** Cysylltwch â Swyddfa'r ysgol i fwcio slot amser.

## Carol yr Ŵyl

Llongyfarchiadau mawr i gôr yr ysgol! Rydym wrth ein bodd i gyhoeddi bod côr yr ysgol wedi cyrraedd yr wyth olaf yng nghystadleuaeth "Carol yr Ŵyl" S4C.

Enw'r gân yw "Dolig Ddaw", gyda'r gerddoriaeth wedi'i chyfansoddi gan Mrs Bethan Mair Roberts a'r geiriau gan Mrs Catrin Evans. Trefnwyd y garol gan Mr Jake Collins, sy'n cyfeilio i'r gân hefyd.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu tîm Prynhawn Da i'r ysgol i ffilmio'r côr yn perfformio'r garol. Byddwn yn eich hysbysu cyn bo hir pryd fydd y garol yn cael ei darlledu ar y teledu.

Diolch o galon i bawb am eu gwaith caled ac yn enwedig i Mrs Roberts, Mr Collins a'r côr am yr holl ymarfer.

## Diwrnod Plant Mewn Angen

Dydd Gwener nesaf, Tachwedd 14eg, byddwn yn dathlu "Diwrnod Plant Mewn Angen". Thema'r diwrnod eleni yw "Heriwch Eich Hun".

Fel rhan o'r thema hon, rydym am osod sialens arbennig i bob disgybl!
Heriwch eich hun i fod yn iach ac egnïol, yn unol ag ethos ein hysgol, drwy ddringo mynydd o'ch dewis!

Gallwch wneud hyn gyda'ch teulu neu ffrindiau,efallai dringo'r Garth, Pen y Fan, neu unrhyw fynydd arall o'ch dewis chi!

Ar ôl cwblhau'r sialens, anfonwch eich lluniau atom ni yn yr ysgol, fel y gallwn ni ddathlu ac arddangos ymdrechion pawb i herio eu hunain ac i gadw'n iach.

## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Hoffwn i gael…?
**Her**
Fy hoff beth yn y byd i gyd ydy…

**Testun trafod yr wythnos**
Pam bod ailgylchu yn bwysig?

**Cân yr wythnos**
Eden - Waw

**Idiom yr wythnos**
Tri Chynnig i Gymro